OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 990 (Cy. 67) (C. 67)

# BYWYD GWYLLT, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Seilwaith 2015 (Cychwyn) (Cymru) 2015

*Made - - - - 24 Mawrth 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 57(4)(b) o Ddeddf Seilwaith 2015(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enw**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Seilwaith 2015 (Cychwyn) (Cymru) 2015.

**Darpariaeth sy'n dod i rym ar 12 Ebrill 2015**

**2.** Mae Rhan 4 o Ddeddf Seilwaith 2015 (rheolaeth amgylcheddol ar rywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion) yn dod i rym ar 12 Ebrill 2015 i'r graddau y mae'n ymwneud â Chymru.

*Carl Sergeant*
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru

24 Mawrth 2015

(**1**) 2015 p.7.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn cael eu gwneud o dan Ddeddf Seilwaith 2015 (p.7) ("Deddf 2015").

Mae rheoliad 2 yn dwyn Rhan 4 o Ddeddf 2015 (rheolaeth amgylcheddol ar rywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion), sef adrannau 23, 24 a 25, i rym ar 12 Ebrill 2015 mewn perthynas â Chymru.

Mae adran 23 o Ddeddf 2015 yn mewnosod isadran 14(4A) newydd i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (p.69) ("Deddf 1981") sy'n darparu bod mesurau sy'n ymwneud â chytundebau rheoli rhywogaethau a gorchmynion rheoli rhywogaethau yn cael eu cynnwys mewn Atodlen 9A newydd i'r Ddeddf honno.

Mae adran 24 o Ddeddf 2015 yn diwygio Rhan I o Atodlen 9 i Ddeddf 1981 fel ei bod yn cael ei rhannu yn dair Rhan benodol.

Mae adran 25 o Ddeddf 2015 yn gwneud newidiadau canlyniadol i Ddeddf 1981.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

## NODYN YNGHYLCH RHEOLIADAU CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Dygwyd y darpariaethau a ganlyn yn Neddf Seilwaith 2015 i rym drwy reoliadau cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Rheoliadau hyn.

| *Darpariaeth yn y Ddeddf* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Rhan 1 Adrannau 1 i 20 *(y gweddill)* | 5 Mawrth 2015 | 2015/481 (C. 26) |
| Adran 23 *(mewn perthynas â Lloegr yn unig)* | Cychwynnir yn rhagolygol ar 12 Ebrill 2015 | 2015/481 (C. 26) |
| Adrannau 24 a 25 (*mewn perthynas â Lloegr yn unig)* | 5 Mawrth 2015 | 2015/481 (C. 26) |
| Adran 26 | Cychwynnir yn rhagolygol ar 12 Ebrill 2015 | 2015/758 (C.41) |
| Adran 28<br>*(y gweddill)* | Cychwynnir yn rhagolygol ar 14 Gorffennaf 2015 | 2015/758 (C.41) |
| Adran 41 | Cychwynnir yn rhagolygol ar 12 Ebrill 2015 | 2015/481 (C. 26) |
| Adran 42 | Cychwynnir yn rhagolygol ar 12 Ebrill 2015 | 2015/481 (C. 26) |

| *Darpariaeth yn y Ddeddf* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Atodlen 7 | Cychwynnir yn rhagolygol ar 12 Ebrill 2015 | 2015/481 (C. 26) |